# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/ Councillor: Tim Davies, Mike Jones–Pritchard, Linda Morgan and Mike Phillips** **Plaid/ Party: Ceidwadwyr**

**Ward: Yr Eglwys Newydd** **Etholwyd / Elected: 4 May 2017**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn ddinesig 2017/2018 a ddaeth i ben ar 24 Mai 2018. Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim byd arall.

**Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau**

Gwasanaethodd y **Cynghorydd Mike Jones Pritchard** ar
Y Cyngor
Y Pwyllgor Cynllunio
CYSAG
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor y Cyfansoddiad
Pwyllgor Penodiadau
Cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Tongwynlais - hyd at 23/03/18
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coryton - hyd at 27/03/18
Cadeirydd Llywodraethwyr Sefydliad Pear Tree - o 27/03/18

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

Gwasanaethodd y **Cynghorydd Mike Phillips** ar
Y Cyngor
Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pobl Ifanc a Gwerthu Cyffuriau
Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor
Aelod o Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

Gwasanaethodd y **Cynghorydd Tim Davies** ar
Y Cyngor
Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol
Y Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd
Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: [Presenoldeb]
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: [Dysgu]

Gwasanaethodd y **Cynghorydd Linda Morgan** ar
Y Cyngor
Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc
Caerdydd Ddwyieithog

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: [Presenoldeb]
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: [Dysgu]

**Adran 2: Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau Cyngor, yn gweithio i ddinasyddion Caerdydd, rydym wedi cael blwyddyn gyffrous, ddiddorol a phrysur, gan weithio i drigolion ein ward. Gan gynnal cymorthfeydd bob pythefnos, rhwng yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, mae ein gwaith wedi cynnwys ymdrin â cheisiadau cynllunio, helpu plant i gael lleoedd mewn ysgolion lleol, cael teuluoedd mewn angen wedi'u hailgartrefu, sicrhau gwelliannau diogelwch ar ffyrdd lleol a gweithio gyda swyddogion i leddfu pryderon parcio a sicrhau bod llinellau ac arwyddion yn cael eu cynnal.

Rydym yn adrodd yn rheolaidd, ac yn sicrhau y cymerir camau i lenwi tyllau, clirio draeniau, trwsio lampau stryd a chael gwared ar dipio anghyfreithlon. Rydym wedi mynegi pryderon am ddigwyddiadau ac wedi trefnu newidiadau buddiol. Rydym wedi adrodd am fethiant casglu gwastraff ac awgrymwyd newidiadau i lwybrau er mwyn lleihau'r nifer o gasgliadau a gollwyd ac rydym wedi cyfarfod â swyddogion ar y safle yn dangos y pethau rydym ni a phreswylwyr yn pryderu amdanynt.

Rydym wedi llwyddo i ofyn am welliannau i lwybrau troed ac arwynebau ffyrdd ac wedi trefnu biniau sbwriel ychwanegol. Mae ein gwaith mewn meysydd eraill wedi bod yn amrywiol, o fynychu cyfarfodydd PACT, sicrhau bod safonau diogelwch tân yn cael eu bodloni mewn eiddo preswyl cyngor, i helpu preswylydd i gadw ei berthi ffiniol tra'n osgoi creu rhwystr i ddefnyddwyr y palmant.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydym wedi gweithio fel llywodraethwyr i gefnogi ysgolion lleol, gan weithio i godi safonau ac wedi arwain ar Ffederasiwn llwyddiannus Ysgolion Cynradd Coryton a Thongwynlais i'r Ffederasiwn Pear Tree.

Mewn gwahanol rannau o'r ward rydym wedi trefnu, ac wedi cymryd rhan mewn rhai sesiynau casglu sbwriel eraill fel rhan o’r ymgyrch Carwch Eich Cymuned.

Yn yr Eglwys Newydd rydym wedi codi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd ac yn gweithio gyda swyddogion i gyflwyno newidiadau i wella diogelwch wrth oleuadau traffig y Plough Inn ac yn Nhongwynlais trefnwyd cyfarfod cyhoeddus a chawsom drafodaethau gyda CNC ynglŷn â chlefyd y llarwydd a'i effaith ar Fforest Fawr.

Yn y Cyngor, fe wnaethon ni arwain ar fabwysiadu'r polisi'n llwyddiannus i ddileu, neu leihau, y defnydd o blastigau untro yng Nghaerdydd a dilynwyd hyn gydag ysgolion, busnesau a sefydliadau lleol, gan gael cymorth i waredu ar blastig untro a chyflwyno dulliau amgen yn lle i wneud ein cymunedau'n lanach, lleihau gwastraff a rhwystro'r deunyddiau hyn rhag mynd i’n hafonydd a'n cefnforoedd, lle maent yn llygru ac yn lladd bywyd gwyllt.

Rydym yn ymwneud â threfnu Gŵyl yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a Ffair Aeaf

Tongwynlais ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau hyn a gwybodaeth arall yn lleol ar ein tudalen Facebook cymunedol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Mewn meysydd eraill o fywyd ward, y tu hwnt i gyfrifoldebau'r Cyngor, mae rhai ohonom yn gwasanaethu ar bwyllgorau Canolfan Gymunedol yr Eglwys Newydd a Neuadd Bentref Tongwynlais. Mae Mike a Linda yn Gynghorwyr Cymunedol yn Nhongwynlais lle mae Linda hefyd ar Gyngor yr Eglwys ac yn arweinydd Ysgol Sul. Mae Linda'n gweithio gyda dau gôr ysgol ac mae'n Gyfarwyddwr Cerddorol, ac mae Mike, yn Gadeirydd Cymdeithas Gorawl Castell Coch gyda Mike hefyd yn Arweinydd gyda Sgowtiaid 1af yr Eglwys Newydd. Mae'r côr yn codi arian i elusen bob blwyddyn ac mae'r ddau Mike hefyd wedi codi arian trwy eu rhedeg a'u beicio, er mwyn helpu Parkinson's UK a Hosbis y Ddinas. .

**Y Cynghorydd Tim Davies**
**Y Cynghorydd Mike Jones Pritchard**
**Y Cynghorydd Linda Morgan**
**Y Cynghorydd Mike Phillips**